# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Sêr o Brydain

## Gweithgaredd wrth gyrraedd

**Yn gyflym, rhestrwch yn holl sêr ffilm o Brydain y gallwch chi feddwl amdanyn nhw.**

**Ac eithrio'r rheini sydd yn *The World's End*, dewiswch bedair seren – dau ddyn a dwy fenyw. Yn eich barn chi, beth yw eu hapêl fwyaf i (a) gynulleidfa ym Mhrydain a (b) cynulleidfa yn America?**

## Tasg 1

**Edrychwch ar y lluniau canlynol o Simon Pegg:**







- **A yw'r lluniau hyn yn cyflwyno Simon Pegg fel seren nodweddiadol?**
- **Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r term 'seren nodweddiadol'?**
- **Ydych chi'n credu bod y rolau y mae Pegg yn eu chwarae yn adlewyrchu pa fath o berson ydyw go iawn?**

## Tasg 2

**Edrychwch ar y tair rhaghysbyseb ganlynol ar gyfer ffilmiau Simon Pegg:**

1. *Run Fatboy Run* (2007)

2. *How to Lose Friends and Alienate People* (2008)

3. *A Fantastic Fear of Everything* (2012)

**Mewn parau/grwpiau bach, trafodwch y cwestiynau canlynol:**

- Beth sy'n debyg rhwng y ffilmiau o ran sut mae Pegg yn cael ei gyflwyno?
- A oes unrhyw wahaniaethau?
- Ydych chi'n credu bod y rolau y mae Pegg yn eu chwarae yn adlewyrchu pa fath o berson ydyw go iawn?
- Yn eich barn chi, pam mae hyn yn bwysig?
- Ydych chi'n credu bod cynulleidfaoedd yn America yn gweld Pegg yn wahanol i gynulleidfaoedd ym Mhrydain? Pam hynny?

# CASE STUDY: *THE WORLD’S END* (Wright, 2013):
## Sêr o Brydain

## Gwaith dilynol

**Edrychwch ar y rhaghysbyseb a’r poster ar gyfer ffilm Nick Frost *Cuban Fury* (2014).**

**Yn eich barn chi, sut mae Nick Frost yn cael ei gyflwyno i gynulleidfaoedd?**




**A oes unrhyw beth yn debyg i ffilmiau Pegg yma?**

**Mae Simon Pegg a Rosamund Pike yn ymddangos gyda’i gilydd unwaith eto yn y ffilm *Hector and the Search for Happiness* (2014) sydd allan yn fuan.**

**Edrychwch ar y rhaghysbyseb hon.**

**A yw’n awgrymu newid yn y math o rolau y mae Pegg bellach yn eu derbyn?**

**Sut mae Rosamund Pike yn cael ei chyflwyno yma? A yw hi’n chwarae rôl fenywaidd stereoteipaidd? A yw hyn yn debyg i *The World’s End*?**